

CYNLLUN GWELLA BLAEN SIOPAU HEOL HOLLTWN

Nodiadau Canllaw

Mae Cynllun neilltuol Gwella Blaen Siopau Heol Holttwn yn cael ei ariannu ym mlwyddyn ariannol 2026/2027 gan y Gronfa Trawsnewid Trefi.

CYNLLUN GWELLA BLAEN SIOPAU HEOL HOLLTWN

Bydd Cynllun Gwella Blaen Siopau Heol Holttwn yn rhoi cymorth ar gyfer y gwelliannau a'r gwaith cynnal a chadw i wella gwedd flaen eiddo masnachol a manwerthu o fewn dalgylch Heol Holttwn (gweler y map ar gyfer ardaloedd cymwys).

Bydd disgwyl i'r gwelliannau gyfrannu at effaith gadarnhaol ar y strydlyn, gan greu amgylchedd mwy deniadol, bywiog, a mwy diogel a fydd yn cynyddu gweithgarwch manwerthu, yn hybu nifer yr ymwelwyr ac yn ysgogi buddsoddiad pellach gan y sector preifat.

Bydd grantiau o bob maint yn cael eu cynnig ar 70% arian grant, 30% arian cyfatebol ar gyfer prosiectau.

SUT MAE GWNEUD CAIS?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais drwy ein gwefan www.valeofglamorgan.gov.uk/working/businesssupport/CynllunGwellaBlaenSiopauHeolHolttwn

Byddwn yn rhoi ffurflen gais addas i chi o ran swm y grant yr ydych yn gofyn amdano. Fel arfer bydd angen wybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais. Gall hynny gynnwys tystiolaeth o unrhyw ganiatâdneu drwyddedau sydd eu hangen i'ch galluogi i wneud eich prosiect ac o ran eich dyfynbrisiau.

Nid ystyrir ffurflenni cais anghyflawn na rhai a gyflwynir heb y ddogfennaeth ategol. Rhaid cyflwyno pob cais yn electronig, ni chaniateir copïau caled.

PRYD GALLA I WNEUD CAIS?

Gallwch gyflwyno cais unrhyw bryd o fewn y cyfnod gwneud cais. Bydd y ffenestr ar agor o Ddydd Llun 19 Hydref 2026 i Ddydd Gwener 13 Tachwedd 2026 neu hyd nes y bydd y cyllid wedi'i ddosbarthu'n llawn.. Cofiwch fod y cyllid yn gyfyngedig a bydd yn cael ei ddyrannu i fusnesau/prosiectau cymwys ar sail y cyntaf i'r felin.

PWY ALL WNEUD CAIS?

Busnesau a pherchnogion eiddo masnachol a manwerthu yn nalgylch Heol Holltwn (gweler y map ar gyfer ardaloedd cymwys).

Bydd pob ymgeisydd yn destun asesiad diwydrwydd dyladwy i benderfynu ar ei addasrwydd fel ymgeisydd. Gall hyn gynnwys gwiriadau credyd ymysg eraill, a chaiff ei wneud cyn i gais gael ei gyflwyno i'r panRel.

RHEOLI CYMORTHDALIADAU

Mae Cynllun Blaen Siopau Heol Holltwn yn cael ei ddyfarnu o dan Reolau Cymhorthdal y DU. Rhaid i bob cais hefyd ystyried sut y byddant yn cyflawni yn unol â rheolaeth cymhorthdal canllawiau Llywodraeth y DU.

<https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime>

Os nad yw ymgeiswyr yn dangos yn ddigonol bod y prosiect arfaethedig yn cydymffurfio o dan Drefn Rheoli Cymhorthdal y DU, gellir ei ystyried yn anghymwys a gallai eich cais gael ei wrthod.

FAINT GALLAF I WNEUD CAIS AMDANO?

Gallwch wneud cais am uchafswm grant o £5,000.

AM BA MOR HIR MAE'R CYLLID YN BERTHNASOL?

Rhaid gwario'r holl arian erbyn mis Mawrth 2027. Bydd prosiectau a ariennir yn cael eu cyhoeddi gyda dyddiadau cau llym o ran ariannu, fydd yn disgyn cyn 31 Mawrth 2027 er mwyn galluogi'r Cyngor terfynol i gael ei brosesu o fewn y dyddiadau cau diwedd blwyddyn llym.

AR BETH GELLIR GWARIO'R ARIAN?

- Paentio'r wedd flaen (rhaid cytuno ar y cynllun lliw ymlaen llaw gyda'r Cyngor)
- Trwsio, ailbwyntio a glanhau Gwaith cerrig neu rendro
- Gwaith atgyweirio ar wydr, drysau, blaen siopau
- Trwsio neu adfer nwyddau dŵr glaw
- Atgyweirio nodweddion gwreiddiol
- Trwsio arwyddion neu osod arwyddion (heb eu goleuo)
- Powdr-orchuddio caeadau rholio presennol
- Addasiadau siop ar raddfa fach (mewnol), a
- Hygyrchedd gwell (allanol a mewnol)

Os bydd unrhyw newid gweledol neu faterol i sut bydd y wedd flaen yn edrych e.e. o ffenestri/drysau pren l UPVC neu newid mewn cynllun lliw fe'ch cynghorir i ofyn am gyngor a chaniatâd posibl cyn cyflwyno'ch cais.

ARB ETH NA ELLIR GWARIO'R ARIAN?

- Gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud
- Ffioedd am ganiatâd statudol, e.e. cynllunio
- Busnesau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo safbwyntiau crefyddol neu wleidyddol penodol; gamblo; pornograffi; cynnig gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath; unrhyw weithgareddau anghyfreithlon; a busnesau eraill yr ystyrir eu bod yn 'newydd a dadleuol' gan y Cyngor.
- TAW adenilladwy.

DETERMINING PROJECT COSTS

Bydd gofyn i bob prosiect roi 30% o gyfanswm cost y prosiect.

Dylai costau pob prosiect fod yn gywir ac yn seiliedig ar ffeithiau. Rhaid cyflwyno dyfynbrisiau dilys i gefnogi'r gwaith rydych yn ei gynneg. Rhaid i ddyfynbrisiau fod gan gontractwyr cydnabyddedig ag enw da a dylid eu manylu a'u heitemeiddio o ran mesuriad, manyleb, maint, a chost.

Does dim ffordd i brosiectau llwyddiannus ofyn am arian ychwanegol oherwydd nad oedd wedi'i gostio'n gywir. Felly, dylid costio prosiectau ar sail dyfynbrisiau neu brofiad diweddar. Bydd gofyn i brosiectau ddarparu tystiolaeth o'r gweithgaredd tendro canlynol cyn y bydd grantiau'n cael eu talu, ac rydym yn cynghori'n gryf bod hyn yn cael ei wneud cyn cyflwyno cais.

CAFFAEL

Amcangyfrif o'r gwerth	Camau caffael sydd eu hangen
Hyd at £2,500	1 dyfynbris neu bris ysgrifenedig wedi eu ceisio gan gyflenwyr perthnasol nwyddau, Gwaith a/neu wasanaethau
£2,500-£5,000	2 dyfynbris neu bris ysgrifenedig wedi eu ceisio gan gyflenwyr perthnasol nwyddau, Gwaith a/neu wasanaethau
Dros £5,000	3 dyfynbris neu bris ysgrifenedig wedi eu ceisio gan gyflenwyr perthnasol nwyddau, Gwaith a/neu wasanaethau

SUT CAIFF Y GRANT EI DALU?

Bydd y grant yn cael ei dalu yn unol â'r telerau ac amodau yn y llythyr ariannu. Fel arfer, bydd y grant yn cael ei dalu'n ôl-weithredol ac yn amodol ar gyflwyno'r holl dystiolaeth o

wariant i'r Cyngor. Ar gyfer busnesau y byddai hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni eu prosiect, siaradwch ag aelod o'r tîm cyn cyflwyno eich cais.

APPELIADAU

Nid oes proses apelio ar gyfer y grant

GWYBODAETH YCHWANEGOL

PWYSIG

- Mae cronfeydd yn gyfyngedig ac mae'n broses ymgeisio gystadleuol. Unwaith y bydd yr arian wedi'i ddyrannu'n llawn, ni fydd mwy o gais yn cael ei ystyried
- Cadwodd y Cyngor yr hawl i gau'r broses ymgeisio datganiadau o ddiddordeb yn gynnwys os derbynnir cyflwyniadau sylweddol.
- Bydd angen i ymgeiswyr gadw at ddyddiadau cau llym drwy gydol y broses, gall methu â gwneud hynny atal eich cais rhag symud ymlaen neu gall arwain at dynnu ich cynnig cyllid yn ôl.
- Rhaid cymeradwyo eich cais cyn i chi wneud unrhyw bryniannau neu ddechrau gwaith, ni fydd unrhyw arian grant yn cael ei gyhoeddi ar gyfer unrhyw eitemau a brynwyd neu waith a wnaed cyn cyhoeddi cymeradwyaeth ysgrifenedig.
- Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cadw'r hawl i ddiweddarau'r canllawiau hyn ar unrhyw adeg.
- Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddychwelyd unrhyw dystiolaeth ofynnol y gofynnwyd amdani yn rhesymol gan Gyngor Bro Morgannwg, ar ôl dyfarnu cyllid, yn nol â'r canllawiau ariannu.